

CYFLWYNIAD

Gyda'r cynnydd mewn cogyddion teledu a thueddiad at fwy o goginio yn arddull gwledydd Môr y Canoldir, mae'r farchnad am berlysiâu ffres yn ehangu. Mae hwn yn faes cynhyrchiant garddwriaethol cymharol uchel ei werth sy'n cydfynd yn dda â nwyddau ffres eraill, fel ffrwythau meddal a llysiâu. Cyn cychwyn ar fenter newydd, mae bob amser yn werth edrych sut y gall y cynydu newydd weddu â'ch strategaeth farchnata a'ch gweithgaredd presennol er mwyn penderfynu pa gynhyrchion newydd fydd yn ategu'r hyn rydych yn ei gynnig ar hyn o bryd.

Mae perlysiâu yn grŵp anferth sy'n amrywio o goed, perthi a phlanhigion lluosflwydd i blanhigion unflwydd a lledgaled.

Mae Tabl 1 yn dangos y perlysiâu poblogaidd sy'n gwerthu yng Nghymru, ynghyd â'u tymhorau a'u hirhoedledd.

Tabl 1: Perlysiâu Poblogaidd

| Math | Ffurf Bywyd | Tymor |
|----------------|---|-------------------------------------|
| Saets | Lluosflwyddiad perthog | Drwy'r flwyddyn |
| Persli | Unflwyddiad/eilflwyddiad | Drwy'r flwyddyn mewn ardaloedd mwyn |
| Teim | Lluosflwyddiad perthog | Drwy'r flwyddyn |
| Rhosmari | Lluosflwyddiad perthog | Drwy'r flwyddyn |
| Coriander | Unflwyddiad | Ebrill-Hydref |
| Mintys | Lluosflwyddiad llysiuol | Ebrill-Hydref |
| Basil | Unflwyddiad lledgaled | Mai-Medi* |
| Taragon | Lluosflwyddiad llysiuol | Ebrill-Hydref |
| Lafant | Lluosflwyddiad perthog | Mehefin-Awst |
| Ffenigl | Lluosflwyddiad/unflwyddiad llysiuol | Mai-Hydref |
| Rhuddygl Poeth | Lluosflwyddiad llysiuol (defnyddir y gwraidd) | Drwy'r flwyddyn |
| Llawryf | Coeden fytholwyrdd | Drwy'r flwyddyn mewn ardaloedd mwyn |
| Lemonweltl | Gweirynt tyner | Mai-Medi * |

* o dan orchudd fyddai orau

Y DEFNYDD O BERLYSIAU

Cysylltir y perlysiâu mwy traddodiadol fel saets, rhosmari a them gyda chig rhost, ac mae rhosmari yn cyfoethogi blas Cig Oen Cymru yn fawr iawn.

Ymysg y newydd-ddyfodiad mwy ffasiynol y mae Coriander, a ddefnyddir yn aml mewn bwydydd Asiaidd, a Basil sy'n gynhwysyn hanfodol mewn llawer o brydau tomato, mewn pesto a llawer o brydau eraill o ardal Môr y Canoldir.

Mae darparu gwybodaeth ar ddefnyddio'r perlysiâu yn cynorthwyo defnyddwyr i wneud penderfyniadau prynu.

LLEOEDD I WERTHU PERLYSIAU

Caiff perlysiâu eu marchnata mewn llawer o wahanol ffyrdd. Y symlaf yw gwerthu sypiau o berlysiâu wedi'u torri mewn marchnadoedd ffermwyr, siopau ffermydd a chynlluniau blychau. Mae archfarchnadoedd yn cynnig perlysiâu wedi'u torri mewn pecynnau seloffen, sy'n aml yn cynnwys gram neu ddau o gynnyrch yn unig ac yn gwerthu am crobris. Fodd bynnag, mae ar y farchnad hon angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn offer pecynnu a storfeydd oer. Mae archfarchnadoedd hefyd yn galw am symiau mawr a gwarant o gyflenwad parhaus. Marchnad arall ar gyfer perlysiâu yw mewn potiau i erddi perlysiâu DIY neu fel potiau silff ffenest (trafodir hyn mewn Nodyn Technegol CALU arall).

Fel sy'n wir yn amlach na pheidio, mae perlysiâu a dyfwyd mewn caeau a'u gwerthu'n ffres mewn sypiau yn gynnyrch llawer gwell na'r dewis wedi ei or-becynnu neu a orfodwyd i dyfu mewn pot.

DULLIAU O GYNHYRCHU

Gellir hau **Persli a Choriander** mewn rhigolau ochr yn ochr â moron a phannas sy'n perthyn yn agos iddynt. Fodd bynnag, mae angen rhaglen barhaus ar gyfer coriander – e.e. plannu bob pythefnos neu fel y bydd yr egin diwethaf yn ymddangos. Gellir hau persli yn y gwanwyn a'i gynaeafu 2-3 gwaith neu ei hau yn Awst a'i gadw dros y gaeaf ar gyfer ei werthu'n gynnar yn y gwanwyn. Mae rhai tyfwyr, yn enwedig rhai organig, yn tueddu i hau persli mewn modiwlau ar gyfer eu trawsblannu. Mae hyn yn syniad da gan fod yr hadau'n aml yn cymryd mis i egino felly caiff eginblanhigion eu tagu'n hawdd gan chwyn yn y cae. Gellir plannu'r modiwl allan ar ôl 4-6 wythnos, gan arbed ar yr amser y mae'r cnwd yn

defnyddio lle yn y cae. Nid yw'r un peth yn wir am goriander. Mae'r perlysiuyn hwn yn egino'n llawer cyflymach na phersli ac yn blodeuo'n fuan. Rhaid cynaeafu sypiau coriander cyn i'r cnwd flodeuo. Ar ôl blodeuo, mae'r planhigyn wedi darod. Ni fydd coriander yn cymryd ei drawsblannu ac felly mae'n well ei hau'n uniongyrchol.

Y ffordd orau o dyfu **Saets, Teim a Rhosmari** mae'n debyg yw trwy daenfa bolythen. Mae'n werth chwilota am y rhywogaethau gorau o'r planhigion hyn ar gyfer eich sefyllfa chi. Mae'r perlysiâu a werthir gan y siopau *cash and carry* yn aml wedi eu codi o had ac yn israddol i'r stoc priodol a godwyd o doriadau. Gall fod angen prynu o ardaloedd fel Evesham lle mae traddodiad o gynhyrchu perlysiâu.

Mewn caeau, gellir gwneud gwelyau o ddefnyddiau gwely arbenigol neu gellwch wneud y tro gyda byrddau rhychu tatws. Gorchuddir y gwelyau wedyn â thaenfa bolythen du neu orchudd polypropylen wedi'i wehyddu fel Mypex. Bydd polythen yn para am hyd at 5 mlynedd, dylai Mypex bara am o leiaf 10 mlynedd. Caiff y planhigion eu plannu trwy dyllau a wneir yn y bilen yn niwedd Chwefror – dechrau Mawrth (neu, os yw'n fwy cyfleus, ym mis Hydref). Rhaid cadw'r tyllau yn y bilen yn fach. Tyfir ardaloedd helaeth o'r perlysiâu traddodiadol hyn. Ar ffermydd masnachol mawr caiff y perlysiâu eu cynaeafu a'u sychu'n fecanyddol ac mae peiriannau arbenigol ar gael.

Y ffordd orau o dyfu **Taragon** hefyd yw trwy bilen bolythen. Mae'n hanfodol cael taragon sy'n tarddu o Ffrainc gan mai chwyn ymledol heb unrhyw flas yw'r math Rwsiaidd. Rhaid i daragon Ffrengig gael ei dyfu o doriadau. Mae taragon yn blanhigyn lluosflwydd ond mae'n fyrhoedlog. Mae tyfwyr yn aml yn cymryd toriadau newydd ym mis Awst neu ddechrau Medi. Caiff y rhain eu cadw dan do dros y gaeaf cyn eu plannu allan yn gynnar y gwanwyn canlynol. Mae taragon yn berlysiuyn grymus, felly sypiau bychan yn unig a gynigir.

Gellir tyfu **Mintys** mewn gwelyau agored; mae gyrru arnynt gyda thractor yn darparu gwely gan fod olion yr olwynion yn dod yn llwybrau. Mae angen i fintys cael ei dorri'n rheolaidd er mwyn ei rwystro rhag blodeuo. Bydd gwely mintys a reolir yn dda yn para am 2-3 thymor. Cofiwch fod mintys yn mynd yn dda gyda thatws cynnar.

Mae **Basil** yn berlysiuyn ffasiynol y gellir ei dyfu fel planhigyn ar gyfer gwely a blennir ym mis Mai. Fodd bynnag, mae'n gwneud yn llawer gwell mewn tŷ gwydr neu dwnnel. Mae basil yn mynd yn arbennig o dda gyda thomatos ac mae'n arogl'i'n dda i ddenu'r cwsmeriaid. Heuwch 3-5 o hadau mewn modiwl neu bot ac eginwch ar 20°C, wedyn parhewch i 'w tyfu ar 15°C er mwyn cael y cynnyrch gorau. Os bydd basil yn cael ei dyfu y tu allan, plannwch ar ôl i berygl rhew fynd heibio, neu byddwch yn barod i'w orchuddio â chnu.

Tyfir **Lafant** ar gyfer y blodau a gaiff eu gwerthu naill ai'n ffres neu wedi sychu. Mae'n addas ar gyfer gwerthiannau hunan-gasglu. Mae llawer o wahanol fathau o lafant ar gael ac mae'n blanhigyn addurniadol iawn. Mae rhai ffermydd, yn enwedig yn Nwyrain Lloegr, wedi arbenigo a dim ond yn gwerthu blodau lafant a chynhyrchion a wnaed ag olew lafant.

Tyfir **Ffenigl** naill ai fel seleri ar gyfer ei fonyn oddfog neu ei dyfu'n syml fel planhigyn lluosflwydd tymor byr gan dorri'r dail pluog wrth iddynt dyfu.

Mae arferion tyfu **Llysiâu'r Gwewyr** rywle rhwng ffenigl a choriander: mae'n dod i fyny'n gyflym ac wedyn yn bolltio ac yn marw. Mae'n dda ar gyfer ei werthu mewn sypiau ac mae'n mynd yn dda gyda physgod.

Planhigyn lluosflwydd o deulu'r bresych yw **Rhuddygl Poeth**. Caiff coronau eu plannu fel arfer mewn rhychau yn debyg i datws er mwyn gallu eu codi'n haws. Ar ôl blwyddyn, codir y cnwd, cedwir y stoc plannu, a chaiff y gweddill ei werthu naill ai fel cynnyrch ffres neu'n well fyth ei wneud yn saws rhuddygl poeth ar y fferm. Defnyddir y gwreiddiau, caiff y gwreiddiau manaf eu sgwrio a'r rhai bras eu plicio. Gall hyn fod yn dasg sy'n tynnu llawer o ddagrau i'r llygaid.

Mae **Lemonwellt** yn dyner a bydd yn marw yn y gaeaf heb wres. Mae'n well ei dyfu mewn twneli.

Mae **Llawryf** yn tyfu fel coeden neu wrych mewn ardaloedd mwyn. Mae bellach yn bosibl ehangu'r ardal lle caiff ei dyfu oherwydd gaeafau mwynach.

Gall gerddi perlysiâu fod yn hynod o ddeniadol a helpu i ddenu'r cyhoedd i'ch fferm. Dylid gosod y gwely gyda dychymyg a byddai'n well os bydd yn agos i siop fferm.

Ychydig, os o gwbl, o drafferthion plâu sydd i'r cnydau hyn felly byddent yn perthyn i'r grŵp haws ar gyfer tyfu organig. Gellir defnyddio chwynladdwyr ar berlysiâu ond mae'r defnydd a wneir ohonynt y tu hwnt i gwmpas y daflen hon. Cysylltwch â HDC ar hdc@hdc.org.uk neu edrychwch yn llawlyfr chwynladdwyr y DU a gynhyrchir bob blwyddyn gan CABI publishing@cabi.org neu wefan PSD p.s.d.information@psd.gov.uk